| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **8 Hydref 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Cyng Barbara Smith / Alan Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012-13** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'n ofynnol i'r cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol o'i berfformiad erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft y cyngor ar gyfer 2012-13.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2012-13, sy'n amgaeedig fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fe argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau y cytunir arnynt, bod Aelodau'n cymeradwyo'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2012-13 i ganiatáu ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2013.

## 4. Manylion am yr Adroddiad.

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-17 yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd. Mae manylion am beth mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn cael eu nodi mewn cynlluniau gwasanaeth blynyddol a'r Ddogfen Ddarpariaeth Flynyddol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Mae gan y cyngor nifer o amcanion cydraddoldeb yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd, a chyfres o Gytundebau Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol hwn yn rhoi gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2012-13, ac felly a yw'r cyngor wedi cyflawni ei rwymedigaeth yn llwyddiannus i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y cyngor i ddarparu yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Yr unig gostau sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn yw’r rhai sy’n ymwneud ag argraffu’r adroddiad iddo fod ar gael mewn mannau derbynfa’r cyngor, llyfrgelloedd, siopau un stop ac ati. Gwneir hyn yn fewnol, gyda’r costau’n cael eu llyncu gan Gynllunio Busnes a Pherfformiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.**

7.1 Nid oes angen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae’r adroddiad hwn yn rhoi gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y cyngor, ac nid yw’r penderfyniad i gymeradwyo’r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig. Cynhaliwyd AEC ar y Cynllun Corfforaethol ei hun, a chafodd ei gyflwyno i’r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2012. Mae’r templed AEC wedi’i gwblhau ynghlwm yn Atodiad II.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae’r adroddiad wedi cael ei ddatblygu gan y Tîm Gwella Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae’r wybodaeth am berfformiad a geir yn y ddogfen wedi cael ei darparu gan y gwasanaethau, ac wedi’i thynnu o system rheoli perfformiad Ffynnon. Mae ymgynghoriad wedi’i gynnal gyda’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) a’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 19 Medi 2013 cyn cael ei gyflwyno i’r Cyngor Sir i’w gymeradwyo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol yn deillio o’r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 “Mae’r risg o adroddiad(au) negyddol sylweddol gan reoleiddwyr allanol” ar hyn o bryd yn risg a nodwyd ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Byddai methu â chyhoeddi’r Adolygiad Blynyddol erbyn y dyddiad cau 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da’r Cyngor.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), a ategir gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.